DISGRIFIAD Y SWYDD A MANYLEB Y PERSON

Teitl y Swydd: Pennaeth y Parth Buddsoddi	**Cyfarwyddiaeth:** Twf a Buddsoddi Rhanbarthol
Adran: Parth Buddsoddi	**Yn adrodd i:** Cyfarwyddwr Strategol, Twf Rhanbarthol a Buddsoddi
Tâl: OM1	**Oriau yr Wythnos:** 37
Rhif y Swydd:	**Nifer y Cyflogeion** **Yn adrodd i Swydd:** 4
Amodau Arbennig: Defnyddiwr Car Achlysurol. Byddai trwydded yrru lawn a dilys a defnydd eich car eich hun o fantais. Efallai y bydd angen gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos o bryd i'w gilydd. Mae'r swydd hon wedi'i chyfyngu'n wleidyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009).	**Lleoliad y Swydd:** Lleoliad swyddfa'r swydd hon fydd Sbarc fodd bynnag bydd gweithio lleol/maes yn ofyniad o'r rôl. Mae gweithio hyblyg yn un o nodweddion allweddol a disgwyliadau'r rôl hon.

Trosolwg

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) newydd fel mecanwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol a math newydd o lywodraethiant economaidd rhanbarthol. Mae'r system hon o gynllunio a buddsoddi rhanbarthol yn darparu fframwaith mwy cyson a democrataidd gyfreithlon, ac mae CCR wrthi'n integreiddio amrediad o raglenni twf rhanbarthol presennol fel ei Fargen Ddinesig iddo ar hyn o bryd.

Wrth i'r CCR drawsnewid i'r Endid Corfforaethol CJC newydd – mae cynnal gallu datblygu a chyflawni o safon uchel sy'n canolbwyntio ar dwf rhanbarthol da a chynhwysol yn parhau i fod yn flaenoriaeth hollbwysig. Y Parth Buddsoddi yw'r rhaglen ychwanegol gyntaf sy'n canolbwyntio ar lesiant economaidd a bydd yn chwarae rhan allweddol wrth wella cymwysterau arloesi'r rhanbarth wrth wella seilwaith y rhanbarth ar yr un pryd. Bydd y rôl yn gyrru ein hagenda arloesi a buddsoddi yn ei blaen o ddenu buddsoddiad ychwanegol, cefnogi twf sectorau allweddol yn y rhanbarth a defnyddio amrediad o gynlluniau sy'n cydgyfeirio â'n cyfeiriad strategol.

Bydd y rôl yn canolbwyntio ar gynnal a datblygu ymhellach yr amodau lle gall twf dan arweiniad arloesi ffynnu, gan greu cynhyrchiant uchel a swyddi gwerth uchel. Y nod yw adeiladu ecosystemau lle mae cydweithio rhwng ymchwil, syniadau a thalent, wedi'u hymgorffori mewn lleoliadau allweddol a chyda chysylltiadau sy'n ymledu i rwydweithiau cyflenwi. Bydd hyn yn galluogi creu swyddi o safon uchel ac yn cyfrannu at economi

wybodaeth CCR, gan edrych allan at gyfleoedd buddsoddi uniongyrchol tramor a dod â'r byd academaidd, diwydiant a llywodraeth ynghyd.

Mae'r rôl yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y meysydd cyhoeddus, preifat, buddsoddi ac academaidd mewn arena aml-lywodraeth newydd ac mae angen gwybodaeth ddofn ochr yn ochr â medrusrwydd, diplomyddiaeth a chraffter masnachol a pholisi. Mae'r rôl yn gofyn am y medrusrwydd a'r gallu i wnïo pob rhan at ei gilydd gan ddod â synnwyr o gydlyniant, integreiddio strategol ac, yn bwysicach fyth, hyder ac ymddiriedaeth wrth i'r CCR adeiladu ei allu a'i gapasiti.

Diben y Swydd:
Fel arweinydd uchel ei barch wrth yrru a meithrin buddsoddi ac arloesi, bydd gennych ddealltwriaeth draws-sectorol ddatblygedig iawn, gan gynnwys y dirwedd ymchwil, sgiliau, cwmnïau allweddol a dealltwriaeth drylwyr o gerbydau ariannu a buddsoddi. Rydym yn chwilio am arweinydd cydnabyddedig i helpu i lunio a gweithredu ein cymorth i'r Parth Buddsoddi.

Disgwylir i rôl Pennaeth y Parth Buddsoddi:

- Ddarparu arweinyddiaeth i ddatblygiad Parth Buddsoddi CCR
- Meithrin, a dod â chydlyniant, strwythur a hunaniaeth i rwydweithiau a phartneriaethau sy'n dod i'r amlwg a fydd yn cydweithio i ddatblygu'r cyfalaf dynol sy'n angenrheidiol i ysgogi arloesi a chreu'r momentwm i alluogi datblygiad organig yn y dyfodol o'r Ardal Arloesi arfaethedig.
- Broceru'r partneriaethau strategol ar draws diwydiant, busnesau, sefydliadau addysg uwch, a'r sector cyhoeddus er mwyn creu'r amgylcheddau potensial uchel (Ardal Arloesi) lle bydd gweithgarwch economaidd sylweddol yn digwydd gan gyflawni canlyniadau economaidd a chymdeithasol sylweddol.
- Meddu ar ddealltwriaeth gref a gwybodaeth amlwg o dirwedd economaidd CCR; lle mae potensial newydd yn bodoli a lle gellir datblygu rhagolygon mwy aeddfed. Bydd hyn yn cynnwys asesu agosrwydd, cyfle a hyfywedd a mynediad at farchnadoedd llafur a ffurfiau diriaethol ac anniriaethol o seilwaith.
- Meddu ar ddealltwriaeth gref o bolisi Ardaloedd Arloesi a'r hyn sydd ei angen i greu'r amodau ar gyfer llwyddiant
- Chwarae rhan arweinyddiaeth wrth feithrin 'cryfder economaidd lle' drwy gysylltu ymchwil a diwydiant a datblygu arweinyddiaeth wleidyddol leol yn y maes arloesi
- Datblygu cynigion ar gyfer defnyddio cadw cyfraddau ar draws y Parth Buddsoddi
- Gweithio ar draws y gyfarwyddiaeth Twf, Arloesi a Buddsoddi Rhanbarthol i wneud y mwyaf o gyfle ac effaith y Parth Buddsoddi ar y rhanbarth gan gynnwys gwella seilwaith y rhanbarth, denu rhagor o FDI, a thyfu'r capasiti ymchwil ac arloesi yn y rhanbarth mewn disgyblaethau sy'n cyd-fynd â ffocws y Parth Buddsoddi.
- Deall a mynegi dull o ddatblygu arloesi sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhwystrau a bod yn gydnerth yn y tymor hir
- Datblygu cynigion buddsoddi sy'n gallu darparu cymorth cynaliadwy ac ychwanegol i mewn i ecosystem y Parth Buddsoddi a busnesau potensial uchel.
- Sicrhau bod yr ymyriadau a'r buddsoddiadau sy'n cefnogi'r Parth Buddsoddi yn gydlynol ac yn synergaidd ag ymyriadau ehangach i gefnogi llesiant economaidd ar draws y CCR;
- Bod yn brif arweinydd gweinyddol, a bod yn atebol, am gyflawni a llwyddiant y Parth Buddsoddi gan gynnwys bodloni'r gofynion llywodraethu fel y'u nodir yn y cytundeb ariannu gan Lywodraethau Cymru a'r DU.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau yn ôl y gofyn o bryd i'w gilydd gan y Dirprwy Brif Weithredwr

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Arwain yn weithredol ddatblygiad a chyflawniad tîm y Parth Buddsoddi. Mae hyn yn galw am oruchwylio rhaglenni sydd â gwerth cyfunol o ddegau o filiynau o bunnoedd, gan gyflawni canlyniadau effeithiol megis allbwn economaidd cynyddol, cynhyrchiant a thwf cynhwysol.

2. Goruchwylio, datblygu a manteisio ar y rhwydwaith o bartneriaethau a chydweithrediadau, er mwyn tyfu'r Parth Buddsoddi yn rhagweithiol, trwy gatalyddu a chydlynu ymdrechion, ar draws amrediad o bartneriaid allanol allweddol, i sicrhau buddsoddiad allanol newydd a datblygu partneriaethau cyhoeddus-preifat arloesol.

3. Arwain ar gychwyn cynigion, syniadau a phrosiectau newydd mewn modd amserol, cydlynol ac effeithiol a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r parth buddsoddi a chysylltu â rhaglenni a fydd yn sail i gynaliadwyedd mewn perthynas ag arloesi, Ymchwil a Datblygu, sgiliau, seilwaith a chysylltedd.

4. Datblygu, gweithredu a chydlynu ymdrechion ar draws y llu o grwpiau rhanddeiliaid ym Mharth Buddsoddi CCR, er mwyn cyflawni rhaglen amlflwyddyn ar draws sawl safle.

5. Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Twf Rhanbarthol a Phennaeth Arloesi ar ddatblygu ymdrechion partneriaeth ar draws yr helics triphlyg cyhoeddus-preifat ac HEI, gan ysbrydoli prosiectau a rhaglenni newydd a manteisio ar berthnasoedd ac adnoddau i gynhyrchu syniadau newydd a chyflawni pethau.

6. Er mwyn sicrhau bod yr holl ddata gwerthuso a pherfformiad o brosiectau a rhaglenni'r Parth Buddsoddi yn cael eu hadrodd yn amserol.

7. Arwain ar faterion sy'n sensitif yn fasnachol ac yn gontractiol, gan reoli mewnbynnau a chyfraniadau cynghorwyr cyfreithiol a thechnegol er mwyn llywio llywodraethiant da a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Parth Buddsoddi.

8. Gweithio'n agos gyda Bwrdd y CJC, y Bwrdd Buddsoddi, gweinidogion allweddol y llywodraeth ac uwch swyddogion, i gefnogi'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr i drosi blaenoriaethau ac amcanion gwleidyddol yn fframweithiau polisi a chynlluniau strategol. Arwain ymhellach ymgysylltiad polisi ar draws partneriaid cynghorau cyfansoddol – gan weithredu â'r effeithiolrwydd mwyaf yn yr amgylchedd llywodraethiant aml-lefel newydd.

<u>Gofynion Corfforaethol</u>

1. Cymryd rhan weithredol mewn cefnogi'r egwyddorion ac ymarfer cydraddoldeb cyfle fel y datgenir ym Mholisi Cyfleoedd Cyfartal y sefydliad.

2. Cymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac unrhyw bersonau eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd neu eich diffyg gweithredu a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch fel y bo'n briodol.

3. Glynu, fel dyletswydd statudol, at Bolisi Diogelu Corfforaethol y sefydliad neu bolisïau a gweithdrefnau cyfatebol statudol a chysylltiedig ac i adrodd am bryderon ynghylch iechyd a llesiant plant neu oedolion mewn perygl. I'ch cynorthwyo yn hyn, mae'n ofynnol i chi gyrchu hyfforddiant diogelu ar y lefel sy'n berthnasol i'r swydd.

4. Fel amod o'ch cyflogaeth, efallai y bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau a/neu amseroedd gwaith eraill o'r fath a allai fod yn rhesymol ofynnol ohonoch, sy'n gymesur â'ch graddfa neu lefel gyffredinol eich cyfrifoldeb o fewn y sefydliad.

5. Er y byddwch yn cael lleoliad, bydd gofyn i chi weithio o wahanol leoliadau yn unol ag anghenion y rôl.

DYDDIAD Y CWBLHAWYD:_____ CYTUNWYD GAN: _____ (Rheolwr Recriwtio)

Dyddiad Derbyn gan Ddeiliad y Swydd: _____

Llofnod Deiliad y Swydd:_____

MANYLEB Y PERSON

Teitl y Swydd: Pennaeth y Parth Buddsoddi

Rhif y Swydd:

MAE'N RHAID I'R PERSON A BENODIR FODLONI'R GOFYNION CANLYNOL

Maes i'w Arddangos	**Gofynion Hanfodol** MAE'N **RHAID I** CHI DDANGOS EICH BOD YN CWRDD Â'R GOFYNION HYN	**Gofynion Dymunol** NID OES RHAID I CHI GWRDD Â'R GOFYNION HYN OND OS YDYCH, DYWEDWCH WRTHYM	**Sut y'u Hasesir Ffurflen Gais neu Gyfweliad neu'r ddau**
Addysg a Hyfforddiant	Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth, â thystiolaeth amlwg o ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus.	Cymhwyster proffesiynol / rheoli perthnasol ar lefel ôl-raddedig. Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg, neu ymrwymiad i ddysgu	Ffurflen Gais ac Ardystiad lle bo angen
Profiad / Gwybodaeth	Arweinydd llwyddiannus a pharchus â hanes o weithio ar lefel uwch – naill ai yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Profiad a chymwysterau sylweddol mewn arloesi, datblygu seilwaith, yr economi wybodaeth, ac o gyllid a thirwedd arloesi a seilwaith ar draws y rhanbarth/DU Profiad sylweddol o gyflawni prosiectau – yn gallu dangos gwybodaeth a phrofiad eglur o weithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac AU. Profiad o weithio gyda busnesau ac asiantaethau buddsoddi allanol i ddatblygu cynigion ar	Gwybodaeth am ddatblygiad economaidd rhanbarthol, buddsoddi a llywodraethiant Gwybodaeth am arfer gorau wrth ddatblygu Ardaloedd Arloesi Profiad amlwg o weithredu'n llwyddiannus mewn amgylchedd amlranddeiliaid, datblygu partneriaethau effeithiol, a chyflawni newid a gwelliant parhaol Gallu profedig mewn perthynas â darparu gwerth a buddion i gyfranddalwyr.	Ffurflen Gais a Chyfweliad

	raddfa a dangos dynameg ac optimistiaeth. Profiad o arwain nifer o brosiectau a rhaglenni ar yr un pryd, cyflawni canlyniadau, adrodd am wybodaeth yn brydlon, o fewn y gyllideb ac i amrywiaeth o gynulleidfaoedd allanol a mewnol. Profiad amlwg o weithio gyda rhanddeiliaid uwch aml-lefel – gan gyfleu negeseuon allweddol yn effeithiol ac yn effeithlon Graddfa uchel o sensitifrwydd gwleidyddol a phrofiad o ddelio ag amrediad o faterion cymhleth a rhanddeiliaid sydd ag agendâu sy'n aml yn gwrthdaro. Gallu profedig i gyflawni targedau a blaenoriaethu prosiectau.	Profiad o rôl debyg flaenorol mewn endid twf rhanbarthol.	
Sgiliau a Galluoedd	Y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol a chyfleu hyn yn eglur ar draws rhwydwaith rhanddeiliaid cymhleth Y gallu i arwain a rheoli nifer o dimau prosiect Y gallu i arwain a negodi canlyniadau masnachol llwyddiannus Y gallu i ddangos sgiliau a gallu mewn perthynas â rheoli a gwerthuso'n eglur ar effaith a chyflawni canlyniadau – ar draws amrediad o raglenni Y gallu i ddeall materion newydd a chymhleth yn gyflym a chymhwyso atebion creadigol i wella		Ffurflen Gais a Chyfweliad

	canlyniadau busnes drwy fanteisio ar werth partneriaeth ar bob lefel. Cyfathrebwr medrus – yn gallu cymryd pynciau cymhleth a'u trosi'n gyfres o negeseuon cryno, clir ac ystyrlon. Y gallu i weithio mewn strwythur gwleidyddol cymhleth – gan feithrin lefelau uchel o ymddiriedaeth, ymgysylltiad a hyder. Sgiliau rheoli datblygedig iawn, gyda'r gallu i adeiladu ac arwain timau. Canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda'r gallu a'r dycnwch i yrru'r agenda ymlaen.		
Rhinweddau Personol	Yn arddangos ymrwymiad i weledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, gan arwain trwy esiampl a chynorthwyo eraill i gyrraedd eu potensial. Yn meddu ar feddylfryd "gallaf wneud" ac agored ac yn gallu dangos arweinyddiaeth addasol ac ymgysylltiol. Yn arddangos agwedd gadarnhaol at heriau newydd a pharodrwydd i addasu. Y gallu i weithio mewn amgylchedd cyflym, gan ddangos dycnwch a phenderfyniad a'r awydd i lwyddo Ymrwymiad i Bolisi Cyfle Cyfartal y sefydliad ac yn cydnabod, gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaeth.		Ffurflen Gais a Chyfweliad

	Dealltwriaeth gref ac enghreifftio gwerthoedd ESG. Ddim yn ildio – yn gwneud y pethau cywir nid y pethau hawdd ac yn dangos lefelau uchel o onestrwydd personol.		
Amgylchiadau Arbennig	Byddwch yn ymgymryd â dyletswyddau eraill a neu adegau gwaith fel y gellid bod yn rhesymol ofynnol ohonoch.	Byddai trwydded yrru lawn a dilys o fantais.	Ffurflen Gais a Chyfweliad